Awyrluniau

DARGANFOD AWYRLUNIAU O GYMRU

Yr hen faes awyr gwag i'r dwyrain o Dyddewi, Sir Benfro. NPRN 308386 DI2006_0525

CBHC RCAHMW

Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Llun arosgo o ardal harbwr Aberystwyth a dynnwyd ym 1932 gan Aerofilms. NPRN 34174 WPW040028

Awyrluniau

Mae archif y Comisiwn Brenhinol, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, yn gartref i gasgliadau helaeth o awyrluniau o Gymru sy'n amrywio o ran dyddiad o 1918 hyd heddiw. Yn eu plith mae delweddau fertigol wedi'u tynnu o uchder mawr, yn ogystal â ffotograffau arosgo lefel-isel sy'n dangos tirweddau a threfweddau Cymru yn syfrdanol o fanwl.

Casgliadau

- Casgliad Aerofilms – ffotograffau arosgo lefel-isel a dynnwyd rhwng 1919 a 2006. Mae'r lluniau a dynnwyd rhwng 1919 a 1953 wedi'u digido a gallwch eu gweld drwy fynd i *Coflein*, ein cronfa ddata a chatalog ar-lein, neu wefan *Prydain oddi Fry*.
- Casgliad Fertigol y Llu Awyr Brenhinol – cafodd y lluniau, sy'n dyddio o 1940 hyd 1965, eu tynnu ar wahanol uchderau gan ddefnyddio awyrennau rhagchwilio ffotograffig pwrpasol.

Moryd Dyfi, Ynys-las, Ceredigion. NPRN 407993 DI2010_0098

- Casgliad Arosgo Lefel-isel y Llu Awyr Brenhinol – awyrluniau o arfordir Cymru ac ychydig o aneddiadau trefol a dynnwyd rhwng 1940 a 1965.
- Casgliad Medmenham y Llu Awyr Brenhinol – awyrluniau fertigol ac arosgo o Gymru a dynnwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Casgliad Awyrluniau Prifysgol Caergrawnt (CUCAP) – awyrluniau a dynnwyd ar lefel isel, ar ddiwedd y 1950au a dechrau'r 1960au, i gofnodi nodweddion archaeolegol yn y dirwedd.
- Casgliad Fertigol yr Arolwg Ordnans – cafodd ei lunio fel rhan o raglen fapio'r DU ac mae'n dyddio o 1962 hyd at 2009.
- Casgliad Arosgo Lefel-isel y Comisiwn Brenhinol – lluniau a dynnwyd gan ein ffotograffwyr awyr ein hunain rhwng 1986 a'r presennol er mwyn cofnodi archaeoleg Cymru a'r newidiadau yn ei thirweddau. Maent hwy'n cynnwys sleidiau lliw 35mm, printiau du a gwyn, a lluniau digidol. Bu'r casgliad hwn yn llwyr ddigidol ers 2004 a gallwch ei weld ar *Coflein*.

Llun fertigol yr Arolwg Ordnans o Winsh-Wen, Abertawe, 1999, yn dangos datblygiad tai. DI2014_0155

Defnydd

Yn ogystal â chynnig cipolwg diddorol ar batrymau tirwedd ar wahanol adegau yn y gorffennol, gall awyrluniau gael eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys ymchwiliadau archaeolegol, darganfod ffiniau, materion hawl tramwy/cynllunio, defnydd tir, morffoleg tirweddau, datblygiad trefol ac ati.

Drwy ddefnyddio gwyliwr stereosgopig, gall dau awyrlun hanesyddol cyfagos gael eu hastudio mewn beth sy'n edrych fel 3D.

Gwasanaethau

- Gwasanaeth ymholiadau am ddim i'r cyhoedd
- Gwasanaeth chwilio blaenoriaethol
- Digido
- Llyfrgell ac ystafell chwilio Llyfrgell ddelweddau
- Setiau data a mapio digidol
- Ymweliadau gan grwpiau
- Adnoddau addysgol



Awyrluniau sydd ar gael i'r cyhoedd yn yr Ystafell Ddarllen.

Mae croeso i chi weld y casgliadau ar *Coflein*, ein cronfa ddata a chatalog archifol ar-lein – www.coflein.gov.uk, neu yn ein llyfrgell ac ystafell chwilio sydd ar agor: Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Iau a Dydd Gwener 9:30 – 16:00, Dydd Mercher 10:30 – 16:30.

Os ydych am weld yr amrywiaeth lawn o awyrluniau sydd ar gael, fe'ch cynghorir i wneud apwyntiad.

Llyfrgell a Gwasanaeth Ymholiadau CHCC
CBHC
Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3BU

Ffôn: +44 (0)1970 621200
E-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk
Gwefan: www.cbhc.gov.uk
Prydain oddi Fry: www.britainfromabove.org.uk/cy

Ein cofnod o safleoedd a chatalog ar-lein:
Coflein: www.coflein.gov.uk